Adran 1

Yn ôl Llywodraeth Cymru (2015c) pwrpas ag ystyr y Cyfnod Sylfaen ydy i gyflawni cwricwlwm effeithiol yng Nghymru sydd yn annog dysgwyr tair i saith mlwydd oed i fynd ati i ddysgu mewn ffordd sydd yn effeithiol i ddatblygiad plant. Crëwyd y Cyfnod Sylfaen yn ôl Llywodraeth Cymru (dim dyddiad) gan gyfuno'r Blynyddoedd Cynnar a oedd i blant tair i pum mlwydd oed gyda chyfnod allweddol un a oedd i blant pump i saith mlwydd oed. Yn hytrach na dau wahanol ran, unwyd y ddau i greu un cwricwlwm i blant a chyfyngu yr oedran o dair i saith mlwydd oed. Dywedwyd Llywodraeth Cymru (2015c) fod calon y cwricwlwm wedi ei sefydlu er mwyn annog y plant i ddefnyddio ei ddychymyg ac i fod mor greadigol ag sy’n bosibl er mwyn cyflawni dyfodol disglair ac effeithiol.

Yn ôl Blynyddoedd Cynnar Cymru (2020) dywedwyd fod gan y disgyblion y cyfleoedd eang o archwilio ac arsylwi y byd o’i gwmpas er mwyn gwneud y mwyafrif allan o’r amgylchoedd llawn gweithgareddau sydd yn agored i'r disgybl. Wrth ddilyn fframwaith y Cyfnod Sylfaen dywedwyd Llywodraeth Cymru (2015c) cyflawnwyd y saith maes dysgu wrth ymgymryd yn weithgareddau ymarferol sydd yn effeithiol yn yr ystafell ddosbarth tu fewn a thu allan. Fodd bynnag, yn ôl sawl adroddiad gwelwyd fod y cwricwlwm Cyfnod Sylfaen yn ôl Llywodraeth Cymru (2015b) yn dangos rhai anghysondebau. Mae'r rhain yn cynnwys defnyddio'r awyr agored a hyfforddiant staff, gwelwyd fod y ddau pwnc yma yn cyfuno gyda’i gilydd yn rhai mannau a dadansoddwyd sut mae’r pynciau yma yn effeithio ar addysg i blant tair i saith mlwydd oed.

Yn ôl Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009) dywedai taw pwrpas y cyfnod sylfaen ydy i ehangu datblygiadau unigolion drwy ddysgu yn yr awyr agored, credwyd fod dysgu tu allan yn hanfodol i arbrofi'r amgylchedd er mwyn adeiladu ar ei datblygiad. Pwysleisiwyd wrth roi y cyfleoedd yma byddai modd bwrw camau cynnydd ar draws y cwricwlwm yn ôl Llywodraeth Cymru (2020a) yn cynnwys datblygiad yn bersonol, creadigol, cymdeithasol, corfforol ac yn ddiwylliannol. Cytuna Bilton a Waters (2016) a hyn a dywedwyd wrth wneud yr ardal allanol yn agored i bob oedran mae hyn yn rhoi effaith cadarnhaol ac effeithiol iawn ar ddatblygiad personol a chymdeithasol yr unigolion. Dywedwyd fod pwyslais enfawr ar bwysigrwydd amgylchedd tu allan yn fframwaith y cyfnod sylfaen yng Nghymru ond dywedwyd nad yw yr hyn yn cael ei annog yn y cwricwlwm yn Lloegr.

Credai fframwaith y cyfnod sylfaen yn ôl Llywodraeth Cymru (2015c) fod dysgu yn yr awyr agored ar gael i bob disgybl i fynd ati i ddatblygu llythrennedd a rhifedd yn dilyn fframwaith Llywodraeth Cymru (2013). Gwelwyd er mwyn cyflawni meysydd dysgu yma dywedir fod effaith cadarnhaol ar gael i ddisgyblion i ehangu ar ei ddatblygiadau unigol a bod hyn yn fwy effeithiol pan yn yr awyr agored. Fodd bynnag awgrymai Bilton a Waters (2016) fod Lloegr yn bychanu'r pwysigrwydd o ddysgu tu allan a dywedant nad oes pwyslais yn Lloegr i ddefnyddio'r amgylchedd tu allan i ehangu ar brofiadau dysgu.

Gwelwyd yn ôl Macdonald (2018) fod theori Bronfenbrenner yn effeithio ar sut mae addysg yn cael ei drosglwyddo yn y byd yn bresennol, drwy ystyried ecolegol Bronfenbrenner pwysleisiwyd ar sut mae perthnasoedd agos plentyn yn effeithio ar ei ddatblygiad. Dywedai Macdonald (2018) taw pwrpas y Cyfnod Sylfaen oedd pwysleisio ar ddysgu drwy chwarae a bod y profiad dan arweiniad y plentyn er mwyn dilyn ffyrdd Reggio Emilia. Fodd bynnag pwysleisiwyd nad dyma'r canlyniad y gwelwyd yn addysgeg y cyfnod Sylfaen, Llywodraeth Cymru (2015c). Ni ddangoswyd datblygiadau a ddisgwylir yn ddatblygiad y plentyn a awgrymai nad yw'r cyfleoedd penodol yn y sefydliadau ar gael gan yr oedolyn er mwyn ehangu ar ddatblygiad y plant.

Dywedwyd Education Scotland (dim dyddiad) a Ebbeck *et al* (2019) fod dysgu yn yr awyr agored yn ymlacio'r dysgwyr a dywedwyd wrth i blant ymlacio byddai hyn yn annog plant i fynd ati i ddysgu mewn ffordd holistaidd. Dywedwyd er bod hyn wedi cael ei brofi yn anffodus awgrymai Bilton (2020) fod canran mawr o ymarferydd yn y sefydliadau yn osgoi'r ardal allanol. Dywedwyd Bilton (2020) fod angen hyfforddi yr ymarferydd i ddeall fod yna lawer o fuddion i ddysgu yn yr awyr agored, nid dim ond yn gorfforol ond hefyd mae yna effaith enfawr ar ei ddatblygiad yn feddyliol ac awgrymwyd gall hyn helpu osgoi gorflinder. Cytunwyd Taylor *et al* (2016) ag Bilton (2020) a gwelwyd fod agweddau rhai ymarferydd yn negyddol tuag at yr awyr agored a bod angen osgoi hyn yn y sefydliadau.

Gwelwyd yn ôl Taylor *et al* (2016) yn glir fod yna gwahaniaeth enfawr rhwng yr athrawes ar gynorthwyydd dosbarth, dywedwyd fod y rhaniad yma yn cael ei weld pan fyddai’r athrawes yn treulio rhan fwyaf o’i ddydd yn dysgu tu fewn ac yn anfon y cynorthwyydd tu allan i ddysgu. Awgrymwyd nad yw’r ddarpariaeth barhaus yn cael ei ddefnyddio fel rhan allweddol o addysg plant y Cyfnod Sylfaen a dywedwyd nad yw’r sefydliad yn bwrpasol ar gyfer datblygiad plant. Gwelwyd yn glir nad oedd y sefydliadau yma wedi cael ei

drawsnewid i ymwneud a fframwaith y cyfnod sylfaen yn ôl Llywodraeth Cymru (2015c) er mwyn datblygu llythrennedd a rhifedd yn y blynyddoedd cynnar.

Gwelwyd dadl gan Huberstone a Stan (2011) fod angen trosglwyddo dysgu cadarnhaol rhwng yr oedolyn ar blentyn er mwyn creu cyfleoedd dysgu. Dywedwyd fod profiadau hwylus yn yr awyr agored yn llesol ond ni welwyd cysondeb o hyn yn y dysgu. Awgrymwyd fod angen hyfforddiant gwell ar athrawon i ymgymryd yn dysgu ac i drosglwyddo'r dysgu mewn ffyrdd sydd yn rhoi cyfleodd gwell i blant yn yr awyr agored. Awgrymai Bilton (2020) mai'r ffordd i osgoi hyn ydy i wella dealltwriaeth yr athrawon i wir ddeall effaith cadarnhaol ar addysgeg yr unigolion. Pwysleisiwyd fod angen mynd ati i hybu unigolion cadarn i fwrw pob diben yn ôl Llywodraeth Cymru (2015a). Fodd bynnag dywedai Education Scotland (dim dyddiad) fod angen bod yr unigolion yn cael y siawns i fynd allan er mwyn gallu cymered risg. Ni ddylai asesiadau risg fod yn rhywbeth i ofni ond dylai fod yn rhan o’r cynllunio er mwyn creu gweithgareddau llawn buddion i blant o bob oedran.

Dywedwyd er mwyn creu gweledigaeth bositif a chadarnhaol i ddyfodol yr unigolion yn ôl Llywodraeth Cymru (2015a), byddai angen i’r ymarferydd i fod yn gadarn yn yr hyn y trosglwyddid i greu unigolion sydd yn frwdfrydig i fynd allan i ddysgu. Fodd bynnag chredai Froebel yn ôl Mickelburgh (2010) er mwyn cael y gorau glas o addysg yr unigolion mae angen i’r ymarferydd fod yn ymwybodol fod angen gwagle priodol arnynt i fynd ati i ddysgu gwybodaeth am y byd drwy archwilio yn yr amgylchedd. Cytuna Ephgrave (2022) a hyn a dywedai fod angen y balans gywir rhwng rhyngweithiad yr ymarferydd a’r plentyn, i fod yn gadarn fod y rhyngweithiad yma yn gwneud gwahaniaeth i ddatblygiad yr unigolyn.

Gwelwyd wrth safleoedd Cymru yn rhestr PISA yn ôl OECD (dim dyddiad) fod effaith negyddol i’w weld yn ddisgyblion un deg pum mlwydd oed yn y flwyddyn 2012, Cymru oedd y wlad waethaf i sgorio. Ers hynny mae’r sgôr wedi cynyddu ychydig ond gwelwyd fod angen newidiaeth enfawr ar y cwricwlwm er mwyn gwella ei addysg. Gwelwyd fod angen effaith enfawr ar y Cwricwlwm Newydd i Gymru yn ôl Llywodraeth Cymru (2021b) er mwyn creu unigolion sydd yn mynd i wneud gwahaniaeth mawr i’r dyfodol, er mwyn anelu i gael dinasyddion egwyddorol, gwybodus sydd yn bwrw'r pedwar diben yn ôl Llywodraeth Cymru (2015a). Cytuna Llywodraeth Cymru (dim dyddiad) ond dywedwyd fod angen newidiaeth enfawr ar y cwricwlwm er mwyn i ddisgyblion i fwynhau'r dysgu er mwyn datblygu ei sgiliau a gwybodaeth o’r byd. Gwelwyd fod bwyslais enfawr ar y pedwar diben

yn ôl Llywodraeth Cymru (2015a), dywedwyd fod angen i bob unigolion cael ei gyfweld er mwyn codi hyder pob un yn unigol, pwysleisiwyd fod yna pwrpas i bob un unigolyn i wneud gwahaniaeth i’r dyfodol.

Gwelwyd yn ôl Llywodraeth Cymru (2015b) fod angen hyfforddiant dwys ac arweiniad clir er mwyn cael asesiadau effeithiol or chwarae tu allan. Er mwyn gweld gwir ateb sut mae’r tu allan yn cael ei ddefnyddio gan yr ymarferydd yn y lleoliadau, dywedir mai diffyg cronfa ydy'r rheswm am hyn. Cytunwyd WJE (2015) a dywedwyd fod angen mewnbwn ar gronfa sydd am rhoi hyfforddiant dwys ac effeithiol i'r ymarferydd er mwyn gwella ac ehangu yn rôl yr oedolyn yn y Cyfnod Sylfaen. Dywedai Llywodraeth Cymru (2015b) i hyn ddigwydd yn effeithiol mae angen i'r ymarferydd i ddeall yn glir beth yw pwysigrwydd y Cyfnod Sylfaen, gydag dealltwriaeth clir o fuddion dysgu y tu fewn a thu allan a sut gallwyd rhoi effaith cadarnhaol ac effeithiol ar ddatblygiad y plentyn.

Awgrymwyd Llywodraeth Cymru (2015b) fod angen mynd yr un ffordd a chwricwlwm eraill ar draws y byd sydd yn cynnwys Sgandinafia, Reggio Emilia a Seland Newydd. Dywedwyd fod tystiolaeth gref fod cwricwlwm y blynyddoedd cynnar y gwledydd yma yn rhoi effaith cadarnhaol ar ddatblygiad plant tair i saith mlwydd oed. Pwysleisiwyd fod angen mynd i lawr drywydd naturiol a defnyddio'r amgylchedd o amgylch y plant mewn ffordd bositif sydd o dan arweiniad y plentyn, i ddod i ffwrdd o’r hen ffordd o ddysgu yn ffurfiol tu ôl i ddesg. Cytuna Maynard a Chicken (2010) gyda Llywodraeth Cymru (2015b) a phwysleisiwyd fod buddion i ddilyn ffordd Reggio Emilia o ddysgu yn y blynyddoedd cynnar. Dywedwyd fod y pwyslais yno i blant i ddysgu o dan arweiniad y plentyn mewn ffordd holistaidd yn y Cyfnod Sylfaen, fodd bynnag dywedwyd nad oedd hyn yn mynd i fod yn hawdd newid dros nos a bod angen hyfforddiant dwys ar yr ymarferydd.

Cytuna Soler a Miller (2010), Maynard a Chicken (2010) a Hewett (2001) gyda sut cyfunwyd syniadau ac ymchwil damcaniaethwyr yn cynnwys Malaguzzi, pwysleisiwyd fod angen i'r Cyfnod Sylfaen i ddilyn llwybr sydd yn ganolog i'r plentyn a bod gyda'r plentyn y cyfleoedd holistaidd er mwyn ehangu ar y datblygiadau dysgu uniongyrchol. Cytuna Ephgrave (2022) a hyn a dywedwyd bod angen mwy o chwarae rhydd sydd o ddiddordeb i’r plentyn unigol. Dywedwyd fod angen llai o strwythur drwy gydol y dydd yn y sefydliadau er mwyn rhoi cyfleoedd cadarnhaol i ddatblygiad y plentyn, ond er mwyn gwneud hyn yn effeithiol mae angen deall datblygiad plant sydd yn cydfynd gyda WJE (2015).

Awgrymwyd National Education Union (2019) bod y cyllid i sefydliadau wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf a dywedwyd fod hyn yn effeithio ar bob math o wahanol broblemau yn y sefydliadau yn cynnwys staffio ac adnoddau, ond yn bennaf yn cael ei effeithio oherwydd hen adeiladau sydd angen cael ei chynnal a chadw. Fodd bynnag dywedai National Education Union (2019) fod pryder wrth i gwricwlwm newydd i Gymru cael ei gyflwyno yn yr ysgolion fod hyn yn rhoi esgus i ddefnyddio cyllid yn wahanol ac yn rhoi rhyddid i benaethiaid yr ysgol i dynnu yn ôl ar hyn. Cytuna Ofsted a Spielman (2020) a phwysleisiwyd fod penderfyniadau gwael sydd yn gysylltiedig â chyllid yn rhoi niwed mawr i ansawdd yr addysg yn yr ysgolion. Fodd bynnag dywedwyd os byddai cynnydd yn y cyllid gall hyn dal fod yn broblem enfawr wrth i arian cael ei wario yn anghywir a byddai hyn yn gallu effeithio ar ddyfodol addysg y plant.

Fodd bynnag ni ddylai cyllid amharu ar hyfforddiant i Gwricwlwm Newydd i Gymru, Llywodraeth Cymru (2021b) yn ôl Llywodraeth Cymru (2019a) am fod hyfforddiant i'r Cwricwlwm am ddim i'r ymarferydd. Dywedai fod yna digon o gyfleoedd ar gael i hyfforddi ymarferwyr er mwyn ehangu ar ei ddealltwriaeth o’r Cwricwlwm Newydd I Gymru. Ond dywedai Undeg Addysg Cenedlaethol Cymru (2019) fod dal angen cynnydd yn y cyllid y sefydliadau er mwyn cyflawni hyn, nid yw cyrsiau am ddim yn unig yn mynd i gryfhau y cwricwlwm newydd. Dywedai fod angen cyfuniad o bethau cadarnhaol er mwyn creu cwricwlwm sydd yn gwneud gwahaniaeth i weledigaeth cwricwlwm yng Nghymru.

Adran 2

Gwelwyd wrth ddilyn fframwaith y cyfnod sylfaen yn ôl Llywodraeth Cymru (2015c) fod angen fod yn benagored tra yn y byd addysg a bod angen i bob plentyn i wneud cynnydd yn amser ei hunain. Dywedwyd fod angen rhoi digon o gyfleoedd i unigolion i fynd ati i ddatblygu yn amser ei hunain a bod pob plentyn yn datblygu ar gyflymder gwahanol. Mae angen cyfleoedd traws cwricwlaidd ar yr unigolion er mwyn gallu datblygu ar sail ei hunain ac i wneud mor unigryw ag sy'n bosibl er mwyn creu gweledigaeth gadarn yn ôl Llywodraeth Cymru (2015a).

Yn dilyn Llywodraeth Cymru (2020a) dywedai fod dilyniant dysgwyr i fod yn wreiddyn y Cwricwlwm Newydd i Gymru a bod asesu plant yno er mwyn hybu ac i alluogi cynydd yr unigolyn yn amser ei hunain. Cytuna Parentzone Scotland (2021) gyda hyn a dywedai yn aml fod angen asesu plant er mwyn cael gwir ystyr o le mae'r unigolyn arni a sut mae hybu yr unigolyn yma er mwyn gallu gwneud cynnydd, boed yn gynnydd bach neu fawr. Un o agweddau pwysicaf ar y mater hwn dywedai Llywodraeth Cymru (2020a) fod angen arweiniad clir i'r sefydliadau i ddeall yn glir y gofynion o asesu a sut i fynd ati i ddilyn trefniadau asesu.

Cytuna University of Reading (dim dyddiad) a hyn a awgrymwyd fod angen asesu mewn ffyrdd sydd yn annog dysgwyr i ddysgu gweithredol, ac i wneud hyn yn gadarn mae angen bod y gweithgareddau ar gael i'r disgyblion. Gweithgareddau sydd yn denu'r plentyn i ymgymryd yn y chwarae ac yn denu diddordeb yr unigolyn. Mae hyn yn cyd-fynd gyda Ephgrave (2022) dywedai os mae'r plentyn yn chwarae yn ddwfn, awgrymwyd fod hyn yn dangos fod y plentyn yn dysgu ac yn ehangu ar ei ddatblygiad. Fodd bynnag gwelwyd gwir asesiad o blentyn pan yn brysur yn chwarae dan arweiniad ei hunain ac nid wrth wneud gweithgaredd sydd o dan arweiniad yr oedolyn sydd a dim diddordeb i'r plentyn.

Pwysleisiwyd yn ôl Parentzone Scotland (2021), Siencyn (2010) a Ephgrave (2022) fod angen asesu er mwyn adnabod cryfderau a gwendidau unigolion er mwyn gallu creu ymyrraeth gywir ar gyfer pob un plentyn. I gynllunio ymyrraeth sydd yn bwrw gwahanol feysydd dysgu sydd yn briodol i'r unigolyn ei hunain, wrth i hyn ddigwydd gall adeiladu ar sgiliau i greu datblygiad cadarnhaol. Cytuna Llywodraeth Cymru (2020a) yn gryf gyda hyn a dywedai mai prif bwrpas y cwricwlwm newydd i Gymru ydy bod pob un unigolyn yng

Nghymru yn cael ei drin fel unigolion unigryw er mwyn bwrw'r pedwar diben. (Llywodraeth Cymru, 2021)

Fodd bynnag dywedai Department for Education (2014) fod angen newid y ffordd hen o asesu plant yn y sefydliadau, yn hytrach na asesu a rhoi plentyn ar lefelau dywedai fod angen asesi unigolion sydd yn dangos gwir adolygiad. Pwysleisiwyd fod angen edrych ar wir ddealltwriaeth yr unigolyn ar y pwnc priodol ac i fynd i mewn i ddyfnder yn hytrach nag gorchuddio llawer o wahanol bynciau i blesio'r data a dim yr unigolyn. Dywedir yn aml fod rhoi lefel penodol i blentyn yn hollol amhriodol, yn enwedig pan fyddai’r disgybl yn ymwybodol o lefel ei hunain. Gwelwyd fod nifer o faterion allweddol yn codi gan gynnwys gall hyn creu niwed enfawr i frwdfrydedd y plentyn i fynd ati i ddatblygu ac i ddysgu ym mhellach, sydd yn effeithio ar les y plentyn yn hir dymor ac yn ei rhwystro rhag mynd ati i ddysgu.

Prif ddadl Department for Education (2014) ydy nad yw disgyblion yn y sefydliadau yn dysgu yn ddwys ac yn ddigon dwfn am bwnc, felly dywedai nad yw’r ddealltwriaeth cryno yno o beth mae’r unigolyn yn gallu llwyddo. Dywedai wrth gael gwared â lefelau mae hyn yn rhoi mwynhad uchel wrth ddysgu yn y dosbarthiadau, dywedai fod angen hyn ar ei’n ddysgwyr ni i’r dyfodol er mwyn creu unigolion gwahanol sydd â chryfderau gwahanol i fwrw'r pedwar diben i gefnogi Llywodraeth Cymru (2015a). Cytuna Department for Education (2014) gyda (Llywodraeth Cymru (2015a) fod angen unigolion brwdfrydig a bod angen cyflawni hyn wrth ddeall yn ôl Llywodraeth Cymru (2021b) fod pob unigolyn yn dysgu yn wahanol a bod y dealladwy yn wahanol i bob un plentyn. Credai fod pob un disgybl yn dysgu mewn gwahanol ffyrdd ac wrth i’r ymarferydd i ddeall hyn yn glir dywedai Department for Education (2014) fod modd i’r ymarferydd i fynd ati i ddysgu yn greadigol.

Wrth i sefydliadau asesu a chofnodi unigolion yn y cyfnod sylfaen dywedai Siencyn (2010) nad oes un ffordd gywir neu anghywir i’w gael wrth asesu unigolion. Fodd bynnag dywedai fod angen bod yn ymwybodol o unigrwydd y plant wrth asesu, pwysleisir fod angen bod yn ymwybodol o gefndir unigolyn er mwyn adnabod yr unigolyn yn fanylach. Dywedwyd fod angen cadw ymwybyddiaeth nad yw pob plentyn ar yr un lefel ac i ystyried anghenion personol yr unigolyn, wrth wneud hyn dylai y broses yma ehangu ar datblygiad y plentyn. Cytuna UKEssays (2015) a hyn a dywedir fod angen cydnabod yr holl wybodaeth am yr unigolyn a'i chysylltu gyda sefyllfa’r cartref. Dywedai UKEssays (2015) fod angen i’r

oedolion o amgylch y plentyn i ddeall unigrywdd y plentyn a dylai hyn gael ei barchu yn gyntaf cyn symud ymlaen i asesu yn academaidd.

Dywedir CPD College (2015) sydd yn cytuno gyda Siencyn (2010) a UKEssays (2015) fod angen creu perthynas gadarn a chryf rhwng y sefydliad, plentyn a'r rhieni. Yn debyg iawn i be dywedir Macdonald (2021), bod angen ffydd yn y perthynas rhwng y sefydliad a'r cartref er mwyn creu a datblygu yr unigolyn. Fodd bynnag dywedai Macdonald (2021) nad oes dealltwriaeth clir o beth yw gofynion y sefydliadau yma er mwyn gallu fynd ati i greu perthynas gadarn. Pwysleiwyd CPD College (2015) ar y ffaith fod angen i'r unigolyn i deimlo yn ddiogel, hapus a chyfforddus yn y sefydliad, ond dywedir fod yr angen yna i rhieni i deimlo fel rhan o'r profiad hefyd. Pwrpas hyn ydy i rhannu gwybodaeth yn effeithiol rhwng y sefydliad a'r cartref er mwyn gallu gwneud y gorau i helpu ac i ddatbglygu yr unigolyn ym mhob maes dysgu.

Cytuna Bené (2015) gyda Standing and testing agency (2020) a phwysleisiwyd fod angen trosglwyddo adborth cadarnhaol i rieni yn hytrach nag negyddol a bygythiol. Ond dywedwyd fod angen rhannu gwybodaeth sydd o fewn diddordeb y disgybl sydd yn pwysleisio ar ei ddatblygiad. Pwrpas rhannu gwybodaeth ydy i greu unigolion brwdfrydig yn y dosbarth, am fod diddordebau yr unigolyn yn cael ei drosglwyddo pan yn dysgu. Cytuna Llywodraeth Cymru (2021a) gyda hyn a dywedwyd fod yr angen yno i drosglwyddo gwybodaeth yn effeithiol gyda'r cartref ar ysgol, a dylai hyn agor drysau rhwng y cartref ar ysgol er mwyn adeiladu perthnasoedd i ehangu ar wybodaeth bwysig am gefndir yr unigolyn. Pwrpas hyn yn ôl Llywodraeth Cymru (2021a) ydy i adnabod pob unigolyn yn unigol i ddatblygu ar ei thaith dysgu a dywedai fod angen ymdrechi yn galed er mwyn creu a chadw y perthynas cadarn yma.

Fodd bynnag dywedai Siponen *et al* (2011) fod plentyn sydd ag economaidd gymdeithasol isel yn gallu cael effaith ar berthynas rhwng y plentyn ar riant. Awgrymai fod perthynas gwael yn cael effaith mawr ar ddatblygiad plentyn ac yn ei rhwystro rhag dysgu. Cytuna Hertzman a Wien (1996) gyda Siponen *et al* (2011) a dywedai fod effaith ar ddatblygiad emosiynol a gwybyddol pan mae economaidd gymdeithasol yn isel ac nad oes gan yr unigolion y gefnogaeth gadarnhaol er mwyn gwella a datblygu yn yr ysgol. Os nad oes perthynas iach gan yr unigolyn gyda'r rhiant pwysleisiwyd Llywodraeth Cymru (2020b) fod angen i gwricwlwm newydd Cymru dysgu yr unigolion i greu perthynas iach gydag oedolion boed yn athrawon, teulu neu ffrindiau. Pwrpas hyn ydy er mwyn gallu gwella ar

iechyd a lles yr unigolyn i greu meddwl clir a hapus i fynd ati i ddysgu. Pwysleisia Ephgrave (2022) a Aasen a Waters (2006) os nad yw’r plentyn yn hapus ni fydd y plentyn yn agored i ddysgu.

Awgrymwyd Aasen a Waters (2006) wrth gael ymrwymiad uchel rhwng y plentyn ar athrawon yn y sefydliadau mae hyn yn rhoi effaith ar les y plentyn a bod hyn yna yn rhoi effaith ar y datblygiad ym mywyd ac ar daith ddysgu'r plentyn. Pwysleisid fod angen i’r plentyn i fod yn hapus i wneud effaith uniongyrchol ar ddysgu ac i ddatblygu fel unigolyn. Dywedai fod hyn yn hanfodol i ddatblygiad y plentyn ac i ddatblygu sgiliau annibynnol, hunan barch a lles, sydd yn bwrw pob agwedd o’r pedwar diben yn ôl Llywodraeth Cymru (2015a). Dywedai Llywodraeth Cymru (2020b) fod angen mynd ati mewn ffordd naturiol a holistaidd er mwyn cael pwyslais enfawr ar les yn agwedd dyddiol yn addysg y plant. Gallwyd gweld pwynt hanfodol Ephgrave (2022) Aasen a Waters (2006) os nad yw'r plentyn yn hapus nid yw’r unigolyn yn y fframwaith meddyliol er mwyn dysgu.

Dywedai Blatchford *et al* (2011) fod y ddadl ar gael er mwyn gweld y gwahaniaeth rhwng dosbarthiadau bach a mawr, neu ysgolion sydd â nifer fach o ddisgyblion yn yr ysgol. Darganfuwyd fod mwy o ddysgu unigol i bob unigolyn yn y grwpiau bach a bod hyn yn denu sylw'r plentyn wrth ddysgu. Dywedai fod mwy o ddysgu ar raddfa un i un yn cael ei drosglwyddo a bod yr athrawon yn ymwybodol pa unigolion sydd yn deall y gwaith yn ddyfnach. Darganfuwyd fod dosbarthiadau mwy gyda mwy o strwythur i’r dysgu sydd yn wahanol i ble gwelwyd bod y dosbarthiadau bach i weld yn dilyn dull plentyn canolog. Cytuna Blatchford (2003) gyda y syniad o ddosbarthiadau bach neu grwpiau bach a dywedwyd fod hyn yn hanfodol i ddeall unigryw'r plentyn, er mwyn gallu cael cynllun ar ba weledigaeth sydd angen ar yr unigolion yma i fynd ati i ddatblygu ei sgiliau personol. Mae hyn yn mynd law yn llaw gyda gweledigaeth y Cwricwlwm newydd i Gymru yn ôl Llywodraeth Cymru (2021b) er mwyn gallu annog sefydliadau i bwysleisio ar ddeall taith dysgu bersonol yr unigolion.

Dywedai Blatchford *et al* (2011) fod polisïau Cymru a Lloegr yn annog y dosbarthiadau mawr i fyny at 30 o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag yn ôl Blatchford *et al* (2011) yn rhai gwledydd gweithredwyd fod angen newid y dysgu i ddosbarthiadau bach a dywedai Gjems a Sheridan (2015) fod gan Sweden ansawdd addysg uchel iawn a dylai gwledydd eraill ar draws y byd dilyn ei chwricwlwm nhw. Dywedai fod yna dadl enfawr wrth gymharu dosbarthiadau mawr a bach a phwysleisid fod rhieni yn pryderu ar y syniad o

grwpiau mawr ac nid yw hyn yn diogelu a datblygu'r plentyn yn unigol. Dywedai fod yr athrawon yn cytuno a hyn a dywedwyd os ydy plentyn yng nghanol dosbarth mawr mae hyn yn achosi difrod i addysg y plentyn am nad yw’r cwricwlwm yn cael ei gyflawni. Cytuna Sheridan *et al* (2014) gyda hyn ond pwysleisiwyd fod hyn yn dibynnu gyda'r gymhareb i oedolyn yn y grŵp, wrth gael grŵp bach o blant i un oedolyn gwelwyd fod effaith cadarnhaol ar ddatblygiad y disgyblion. Dywedwyd fod gan yr oedolyn amser i fynd o amgylch pob unigolyn er mwyn ymyrryd yn bositif yn y dysgu, mae hyn yn rhoi effaith cadarnhaol tra yn ehangu ar ddealltwriaeth y plentyn wrth annog iaith a datblygiad cymdeithasol.

Dywedwyd Department for Education (2021) fod angen fod yn wyliadwrus o asesiadau risg, a phryd mae’r gofynion yna i wneud asesiad risg. Ond pwysleisiwyd Ofsted (2015) fod angen rhoi gwagle priodol i ddisgyblion i fynd ati i alli ddysgu drwy chwarae boed risg neu beidio. Trosglwyddwyd CPD College (2015) a Llywodraeth Cymru (2021a) y wybodaeth yn glir fod angen i’r unigolyn i fynd ati i asesu risg ei hunain ac i fod yn fwy ymwybodol o risgiau sydd yn yr amgylchedd ond anogwyd y plant i fod yn ymwybodol o ofynion ei hunain a ble dylai ei risg unigol nhw orffen. Dywedir yn aml fod angen i'r unigolyn ei hunain i ddeall ble mae ei ffin risg nhw, a dywedai yn glir nad oes yr un rheol i bawb am ei fod yn benderfyniad unigol y plentyn. Ond dywedir er mwyn i’r unigolyn i ddeall ffiniau ei hunain maen hanfodol fod yr oedolion yn rhoi ffydd a gwagle priodol i’r unigolion ac nid i ymyrryd a rhwystro’r chwarae'r plant. Dywedir fod cymered risg yn rhan allweddol o ddatblygiad y plentyn a bod angen i'r oedolyn i gefnogi hyn yn hytrach na dinistrio. Pwysleisiwyd fod yna fframweithiau ac asesiadau risg yno ar waith i amddiffyn y plant rhag niwed, cytuna GOV.UK (2021) a hyn a dywedwyd dylai fod gan y plant y cyfleoedd i chwarae yn rhydd yn y sefydliadau ac ni ddylai oedolion rhwystro hyn rhag digwydd.

Un o agweddau pwysicaf gwelwyd ar y mater yma ydy bod angen adnabod y plentyn fel unigolyn yn ôl Parentzone Scotland (2021), Siencyn (2010) a Ephgrave (2022) er mwyn gallu datblygu ar ei daith dysgu ar draws y meysydd dysgu Llywodraeth Cymru (2021b). Ond gwelwyd yn glir fod yr angen yno i gael perthynas cadarnhaol gyda’r plentyn a’r cartref i allu deall beth yw gwir ofynion yr unigolyn. Gwelwyd fod gan bawb ym mywyd y plentyn y cyfrifoldebau i allu ehangu ar ei ddatblygiad ym mhob maes dysgu. Fodd bynnag er mwyn creu hyn maen hanfodol bod lles y plentyn yn wreiddyn y dysgu yn ôl Llywodraeth Cymru (2020b), Ephgrave (2022) a Aasen a Waters (2006) a bod hyn yn gadarn cyn symud ymlaen i herio'r plentyn yn ei addysg.

Adran 3

Sut mae adrodd storiâu i blant yn cael effaith ar ei ddatblygiad?

Mae ymchwil yn dangos yn gryf fod yna lawer o fuddion i ddarllen storiâu i blant. Gwelwyd fod effaith enfawr ar ddatblygiad plentyn pan yng nghanol y darllen a bod angen sbarduno o oedran ifanc er mwyn cael yr angerdd yna i ddarllen. Dywedwyd Guardian (2022) fod darllen i fod yn hwyl ac nid yn dasg a dylai fod gan blant y teimlad unigryw tuag at lyfrau a storiâu, a bod hyn yn ei denu i freuddwydio am y byd mawr.

Gwelwyd yn bennaf fod adrodd storiâu o oed ifanc yn cael effaith enfawr ar iaith a llythrennedd y plentyn yn ôl Agosto (2016) a Isbell *et al* (2004). Dywedwyd fod enillion cadarnhaol i iaith lafar plant blynyddoedd cynnar, wrth gael y cariad tuag at y darllen o bob oedran. Awgrymwyd Llywodraeth Cymru (2019b) fod gwrando ar unrhyw fath o lenyddiaeth yn ehangu ar orwelion plant, ond dywedwyd os nad yw'r iaith yn cael ei drosglwyddo byddai hyn yn cael effaith ar y sgiliau iaith a llythrennedd yr unigolyn. Mae cael y plentyn i garu'r darllen yn gallu ysbrydoli ac ysgogi'r plentyn i ddatblygu ar wahanol feysydd dysgu, dywedwyd bod buddion i sgiliau eraill nid dim ond iaith a llythrennedd hefyd.

Trwy wrando ar storiâu mae hyn yn annog y plentyn i ddysgu am y byd o'i hamgylch boed y gymuned agos neu ochr arall i'r byd. Gall hyn ehangu ar ei ddealltwriaeth a sut i fod yn egwyddorion gwybodus sydd yn taro'r pedwar diben yn y Cwricwlwm newydd i Gymru yn ôl Llywodraeth Cymru (2015a). Dylai gwrando ar storiâu fod yn rhan o blentyndod pob plentyn ar draws y byd, a bod angen yr oedolyn i fod mor angerddol ar blentyn er mwyn hwyluso'r profiad o ddarllen storiâu. Byddai defnyddio gwahanol leisiau yn fuddiol iawn i ychwanegu at yr hwyl, nid dim ond i drosglwyddo hapusrwydd a hwyl ond i drosglwyddo deallusrwydd o'r stori. Gall y stori gael ei ddweud mewn iaith tramor a byddai defnyddio lleisiau pwerus i drosglwyddo'r cymeriadau yn fuddiol eto i drosglwyddo iaith i'r plentyn.

Fodd bynnag dywedai BBC (2013) nad oes un ffordd benodol o ddysgu'r plant a phwysleisiwyd fod pob plentyn yn dysgu iaith yn wahanol. Dywedai Lucarevschi (2016) bod llyfrau yn rhoi'r cyfleoedd effeithiol yma i ddysgu iaith a lleferydd ond fwy na dim yn llawer mwy effeithiol nag unrhyw ffordd arall o ddysgu gwybodaeth. Awgrymwyd mai dyma'r ffordd dylai athrawon dysgu'r disgyblion wrth drosglwyddo iaith a lleferydd mewn ffordd hudol a chreadigol, er mwyn denu y plant i wrando ac i ehangu ar ei gwybodaeth.

Dywedai Booktrust (2019) er mwyn creu unigolion sydd â chariad at ddarllen mae angen bod yr adnoddau darllen yn agored i'r plentyn boed yn y cartref, ysgol neu lyfrgelloedd. Credai os na fyddai'r plentyn yn gweld oedolion a phlant eraill yn darllen nid yw'r cariad at ddarllen yn mynd i fod mor naturiol i'r plentyn.

Un beth sydd yn dod i'r amlwg ydy bod angen caffael ar y plentyn wrth ddarllen stori, os nad yw'r plentyn yn ymgymryd yn y stori ni fydd effaith enfawr ar ddatblygiad iaith y plentyn. Fodd bynnag wrth ddweud hyn nid yw'r plentyn angen fod yn eistedd yn sownd wrth wrando ar stori. Wrth i'r plentyn i ymlacio yn ffordd ei hunain mae hyn yn fwy buddiol am ei fod yn hapus ac yn gyfforddus wrth wrando ar y stori, gall y stori hefyd gael ei drosglwyddo yn glywedol yn y cefndir. Cytuna Ephgrave (2022) a hyn a dywedwyd yn glir fod angen i'r plentyn i fod yn gyfforddus wrth iddo fwynhau gwrando ar y stori.

Gallwn weld fod iaith yn ffordd naturiol o drosglwyddo gwybodaeth boed yn babi neu'r henoed a chredai Tomasello yn ôl Ghalebi a Sadighi (2015) fod angen ymrwymiad oedolyn ar blentyn er mwyn i'r plentyn ehangu ar ei iaith a lleferydd. Felly dywedwyd fod angen trosglwyddo iaith newydd gydag iaith hen er mwyn ehangu ar ddealltwriaeth y lleferydd a sut i ddefnyddio'r eirfa yn y term cywir.

Dywedai Llywodraeth Cymru (2019b) fod iaith a lleferydd unigolyn yn dechrau ac yn datblygu drwy gymdeithasu, ystyr hyn ydy i wrando, darllen a gweld yr oedolyn yn darllen storiau. Yn amlwg mae cymdeithasu yn digwydd mewn ffurf arail ym mywydau'r plentyn nid dim ond drwy wrando ar stori, ond rhoddwyd pwyslais enfawr fod wir angen gwrando ar storiâu er mwyn gallu datblygu ei ddeallusrwydd yn unigol. Dywedai Llywodraeth Cymru (2021b) fod angen llwythi o gyfleoedd ar y plant i wrando ar iaith a geirfa newydd ac wrth roi cyfleoedd ysbrydoledig o wrando ar iaith yn ddyddiol mae hyn yn gallu lluosi ar ei eirfa personol. Felly gwelwyd fod effaith ar wrando ar storiâu, caneuon a sgwrsio yn hanfodol i ddatblygiad iaith a lleferydd yn ôl Llywodraeth Cymru (2019b).

Gwelwyd yn ôl Khan Academy (2022) fod gwrando neu adrodd storiau yn rhoi effaith cadarnhaol wrth gysylltu gyda’r gynulleidfa ar lefel emosiynol. Dywedai fod angen cynnwys teimladau wrth adrodd storiâu er mwyn creu cysylltiadau emosiynol er mwyn iddyn nhw i ddeall a dysgu beth yw empathi yn ôl Llywodraeth Cymru (2019b).

I grynhoi gallwn wir gweld fod effaith cadarnhaol ar ddatblygiad plentyn wrth iddo fod yng nghanol y llyfrau. Felly os ydy unrhyw unigolyn yn poeni am ddatblygiad addysg ei phlentyn, nid oes angen mynd ym mhellach na llyfr da. Gwnewch eich hunain yn gyfforddus gyda’ch plentyn ac anogwch y plentyn i fynd ati i ddewis llyfr er mwyn i bawb gallu ymlacio a gwrando ar y stori. Mae’r teimlad agos yna gyda pherthnasoedd yn rhoi effaith cadarnhaol ym mywyd y plentyn ac yn rhoi atgofion gwerthfawr sydd yn gysylltiedig gyda chariad at lyfrau yn y dyfodol.

Cyfeirnodi –

Agosto, D. (2016) 'Why Storytelling Matters', Unveiling the Literacy Benefits of Storytelling, Ar Gael: https://journals.ala.org/index.php/cal/article/viewFile/5990/7634 (Darllenwyd: 12/01/22).

BBC (2013) Pupils learn to read 'in mant ways', sayd laureate, Ar Gael: https://www.bbc.co.uk/news/education-20944072 (Darllenwyd: 12/01/22).

Bené, R. (2015) 'The Teacher-Student Relationship and Its Effect on Academic Effort and Student Engagement in the Classroom', *Educational sociology; Middle School education,* Ar Gael: https://www.proquest.com/docview/1733667437?parentSessionId=ES49EkcPggPPdQrwWWxRcU1lXml5PNupSHH0T0rm7R0%3D&pq-origsite=primo&accountid=130472 (Darllenwyd: 12/01/22).

Bilton, H. (2020) 'Values stop play? Teachers' attitudes to the early years outdoor environment', *Early Child Development and Care*, Ar Gael: https://centaur.reading.ac.uk/86411/1/H%20Bilton%20FINAL.%203.pdf (Darllenwyd: 08/01/22).

Bilton, H. a Waters, J. (2016) 'Why Take Young Children Outside? A Critical Consideration of the Professed Aims for Outdoor Learning in the Early Years by Teachers from England and Wales', Social Sciences, Ar Gael: file:///C:/Users/Teacher/Downloads/socsci-06-00001.pdf (Darllenwyd: 06/01/22).

Blatchford, P. (2003) *The class size debate: is small better?,* Open University Press, Ar Gael: https://r3.vlereader.com/Reader?ean=9780335224326 (Darllenwyd: 13/01/22).

Blatchford, P. *et al* (2011) 'Examining the effect of class size on classroom engagement and teacher–pupil interaction: Differences in relation to pupil prior attainment and primary vs. secondary schools', *Learning and Instruction,* Volume 21, Issue 6, December 2011, Pages 715-730 Ar Gael: https://www-sciencedirect-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/science/article/pii/S0959475211000260 (Darllenwyd: 12/01/22).

Blynyddoedd Cynnar Cymru (2020) *Foundation Phase,* Ar Gael: https://www.earlyyears.wales/en/foundation-

phase#:~:text=The%20Foundation%20Phase%20is%20the%20statutory%20curriculum%20for,be%20creative%2C%20making%20learning%20fun%20and%20more%20effective. (Darllenwyd: 06/01/22).

Booktrust (2019) ‘Darllen gyda’ch plentyn’, *Getting children reading* [blog], Ar Gael: https://www.kumon.co.uk/blog/the-benefits-of-storytelling/ (Darllenwyd: 14/01/22).

Bryant, C. (2014) *7 Ways to teach your kids storytelling*, Ar Gael: https://www.sheknows.com/parenting/articles/1028681/ways-to-teach-your-kids-storytelling/ (Darllenwyd: 07/01/2022).

Cole, M. (2012) *Cognitive development and formal schooling: The evidence from cross-cultural research*, Vygotsky and Education, Cambridge University Press, Ar Gael: https://www-cambridge-org.ezproxy.uwtsd.ac.uk/core/services/aop-cambridge-core/content/view/D7B1DC837467434C0D84968ACADCFAEB/9781139173674c3_p89-110_CBO.pdf/cognitive_development_and_formal_schooling_the_evidence_from_crosscultural_research.pdf (Darllenwyd: 14/01/22).

CPD College (2015) *Teachers TV: A Unique Child* [video], Ar Gael: https://www.youtube.com/watch?v=danfo5KqCWY (Gwelwyd: 09/01/22).

Department for Education (2014) *National Curriculum: Tim Oates on assessment* [video], Ar Gael: https://www.youtube.com/watch?app=desktop&v=-q5vrBXFpm0 (Gwelwyd: 11/01/22).

Department for Education (2021) *Statutory framework for the early years foundation stage,* Ar Gael: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/974907/EYFS_framework_-_March_2021.pdf (Darllenwyd: 13/01/22).

Donaldson, G. (2017) ‘Cymru’n arwain y ffordd o ran diwygio’, *Blog cwricwlwm I Gymru* [blog], Ar Gael: https://cwricwlwmigymru.llyw.cymru/2017/07/04/cymrun-arwain-y-ffordd-o-ran-diwygio/ (Darllenwyd: 10/01/22).

Donaldson, G. (2021) ‘Breaking new ground in education reform’, *Yr Athrofa* [blog], Ar Gael: http://athrofa.cymru/2017/07/10/breaking-new-ground-in-education-reform/ (Darllenwyd: 11/01/22).

Ebbeck, M. *et al* (2019) ‘Early Childhood Teachers’ Views and Teaching Practices in Outdoor Play with Young Children in Singapore’, *Early Childhood Education Journal,* Ar Gael: https://link-springer-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/content/pdf/10.1007/s10643-018-00924-2.pdf (Darllenwyd: 09/01/22).

Education Scotland (dim dyddiad) *Outdoor Learning*,Ar Gael: https://education.gov.scot/improvement/Documents/hwb24-ol-support.pdf (Darllenwyd: 07/01/22).

Ephgrave, A. (2022) *‘Planning in the moment.’*, *Cyngor Sir Gar, Microsoft Teams.*

Ghalebi, R. a Sadighi, F. (2015) ‘The Usage-based Theory of Language Acquisition A review of Major Issues’, *Journal of Applied Linguistics and Language Research*, Cyfrol 2, Argraffiad 6, tud. 190-195, Ar Gael: http://www.jallr.com/index.php/JALLR/article/viewFile/138/pdf138 (Darllenwyd: 14/01/22).

Gjems, L. a Sheridan, S. (2015) ‘Early literacy in Norwegian and Swedish preschool teacher education’, *Psychology in Russia: State of the Art*, Cyfrol 8, Argraffiad 2, Ar Gael: http://psychologyinrussia.com/volumes/pdf/Psychology_2_2015.pdf#page=18 (Darllenwyd: 14/01/22).

GOV.UK (2021) *Health and safety: responsibilities and duties for schools,* Ar Gael: https://www.gov.uk/government/publications/health-and-safety-advice-for-schools/responsibilities-and-duties-for-schools (Darllenwyd: 10/01/22).

Guardian (2022) ‘Reading for fun improves children's brains, study confirms’, *Support the Guardian* [blog], Ar Gael: https://www.theguardian.com/books/booksblog/2013/sep/16/reading-improves-childrens-brains (Darllenwyd: 14/01/22).

Hertzman, C. a Wien, M. (1996) ‘CHILD DEVELOPMENT AND LONG-TERM OUTCOMES:A POPULATION HEALTH PERSPECTIVE AND SUMMARY OF SUCCESSFUL INTERVENTIONS’, *Department of Health Care and Epidemiology*, Cyfrol 43, Rhif 7, tud. 1083-1095, Ar Gael: PII: 0277-9536(96)00028-7 (sciencedirectassets.com) (Darllenwyd: 13/01/22).

Hewett, V. (2001) ‘Examining the Reggio Emilia Approach to Early Childhood Education’, *Early Childhood Education Journal,* Cyfrol 29, Rhif 2, Ar Gael: https://www.proquest.com/docview/751805885?accountid=130472&parentSessionId=ERodewZ2Aot2BpjiLyw%2F0ub%2BkPKGLcBq0aIjlfjbZ1k%3D&pq-origsite=primo (Darllenwyd: 06/01/22).

Huberstone, B. a Stan, I. (2011) ‘Outdoor learning: Primary pupils' experiences and teachers' interaction in outdoor learning’, *Education 3-13,* Ar Gael: https://www.researchgate.net/publication/233140350_Outdoor_learning_Primary_pupils'_experiences_and_teachers'_interaction_in_outdoor_learning (Darllenwyd: 14/01/22).

Isbell, R. *et al* (2004) ‘The Effects of Storytelling and Story Reading on the Oral Language Complexity and Story Comprehension of Young Children’, *Early Childhood Education Journal,* Ar Gael: https://www.researchgate.net/publication/226108668_The_Effects_of_Storytelling_and_Story_Reading_on_the_Oral_Language_Complexity_and_Story_Comprehension_of_Young_Children (Darllenwyd: 13/01/22).

Karpov, Y. (2014) *Vygotsky for Educators,* Cambridge University Press, Ar Gael: https://www-cambridge-org.ezproxy.uwtsd.ac.uk/core/books/vygotsky-for-educators/ED57E290654EFF736912EBA524950ED9#fndtn-information (Darllenwyd: 13/01/22).

Khan Academy (2022) *Introduction to storytelling* [video], Ar Gael: https://www.khanacademy.org/computing/pixar/storytelling/we-are-all-storytellers/v/storytelling-introb (Darllenwyd: 12/01/22).

Lucarevschi, C. (2016) ‘The role of storytelling in language learning: A literature review’, *Working Papers of the Linguistics Circle of the University of Victoria*, 26(1), tud 24–44, Ar Gael: file:///C:/Users/Teacher/Downloads/15309-Article%20Text-14866-1-10-20160902.pdf (Darllenwyd: 13/01/22).

Llywodraeth Cymru (2013) *National Literacy and Numeracy Framework,* Ar Gael: https://hwb.gov.wales/api/storage/64812b0e-3d20-4d10-94e8-68221e47a38d/to-support-schools-in-introducing-the-national-literacy-and-numeracy-framework.pdf (Darllenwyd: 06/01/22).

Llywodraeth Cymru (2015a) *Pedwar Diben y Cwricwlwm i Gymru,* Ar Gael: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/pedwar-diben-y-cwricwlwm-i-gymru.pdf (Darllenwyd: 09/01/22).

Llywodraeth Cymru (2015b) *Evaluating the Foundation Phase,* Ar Gael: https://orca.cardiff.ac.uk/88753/1/150514-foundation-phase-final-en.pdf (Darllenwyd: 09/01/22).

Llywodraeth Cymru (2015c) *Fframwaith y Cyfnod Sylfaen*, Ar Gael: https://hwb.gov.wales/api/storage/4f222e31-85c2-407b-9760-5ed8bd0b9e48/fframwaith-y-cyfnod-sylfaen.pdf (Darllenwyd: 06/01/22).

Llywodraeth Cymru (2019a) *The Curriculum for Wales Professional Learning Programme from our Regional Education Consortia,* Ar Gael: https://curriculumforwales.gov.wales/2019/11/29/the-curriculum-for-wales-professional-learning-programme-from-our-regional-education-consortia/ (Darllenwyd: 06/01/22).

Llywodraeth Cymru (2019b) *Languages, Literacy and Communication,* Ar Gael: https://dera.ioe.ac.uk/33314/6/draft-statutory-guidance-languages-literacy-and communication.pdf (Darllenwyd: 14/01/22).

Llywodraeth Cymru (2020a) *Cefnogi cynnydd dysgwyr: canllawiau asesu,* Ar Gael: https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cefnogi-cynnydd-dysgwyr-canllawiau-asesu/ (Darllenwyd: 06/01/22).

Llywodraeth Cymru (2020b) *Maes dysgu a phrofiad Iechyd a Lles*, Ar Gael: https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/iechyd-a-lles/ (Darllenwyd:15/01/22).

Llywodraeth Cymru (2021a) *Agor Llwybrau,* Ar Gael: https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2021-05/agor-llwybrau-dogfen-ymgynghori_0.pdf (Darllenwyd: 12/01/22).

Llywodraeth Cymru (2021b) *Cwricwlwm i Gymru*, Ar Gael: https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/ (Darllenwyd: 05/01/22).

Llywodraeth Cymru (dim dyddiad) *Education is Changing*, Ar Gael: https://gov.wales/education-changing (Darllenwyd: 14/01/22)

Llywodraeth Cymru (dim dyddiad) *StatsWales*, Ar Gael: https://statswales.gov.wales/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Examinations-and-Assessments/Foundation-Phase (Darllenwyd: 06/01/22).

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009) *Outdoor Learning Handbook,* Ar Gael: https://hwb.gov.wales/storage/fcb8539c-9be7-4883-8542-35d7b54b56f2/foundation-phase-outdoor-learning-handbook.pdf (Darllenwyd: 06/01/22).

Macdonald, N. (2018) 'Foundation Phase Opinion Piece' (Darllenwyd: 13/01/22).

Macdonald, N. (2021) 'The Great Divide', *Yr Athrofa* [blog], Ar Gael: https://athrofa.cymru/2018/02/14/the-great-divide/ (Darllenwyd: 10/01/22).

Maynard, T. a Chicken, S. (2010) 'Through a different lens: exploring Reggio Emilia in a Welsh context', *Early Years*, Cyfrol 30, Rhif 1, tud 29–39, Ar Gael: http://www.differnet.com/experience/early-reading/Through%20a%20different%20lens_%20exploring%20Reggio%20Emilia%20in%20a%20Welsh%20context.pdf (Darllenwyd: 06/01/22).

Mickelburgh, J. (2010) Educational Pioneers: Friedrich Froebel, 1782-1852, Foundation Stage Forum, Ar Gael: https://eyfs.info/articles.html/teaching-and-learning/educational-pioneers-friedrich-froebel-1782-1852-r44/ (Darllenwyd: 09/01/22).

National Education Union (2019) *School Funding in Wales,* Ar Gael: https://neu.org.uk/press-releases/school-funding-wales (Darllenwyd: 06/01/22).

OECD (dim dyddiad) *PISA*, Ar Gael: https://www.oecd.org/PISA/ (Darllenwyd:15/01/22).

Ofsted (2015) *Teaching and play in the early years – a balancing act?,* Ar Gael: https://view.officeapps.live.com/op/view.aspx?src=https%3A%2F%2Fassets.publishing.service.gov.uk%2Fgovernment%2Fuploads%2Fsystem%2Fuploads%2Fattachment_data%2Ffile%2F444144%2FTeaching-and-play-in-the-early-years-a-balancing-act.doc&wdOrigin=BROWSELINK (Darllenwyd: 13/01/22).

Ofsted a Spielman, A. (2020) 'Commentary on school funding', *GOV.UK,* Ar Gael: https://www.gov.uk/government/speeches/commentary-on-school-funding (Darllenwyd: 07/01/22).

Parentzone Scotland (2021) *What is assessment, and when and how does it take place?,* Education Scotland, Ar Gael: https://education.gov.scot/parentzone/learning-in-scotland/assessment-and-achievement/what-is-assessment-and-when-and-how-does-it-take-place/ (Darllenwyd: 09/01/22).

Sheridan, S. *et al* (2014) 'Group size and organisational conditions for children's learning in preschool: a teacher perspective', *Educational Research,* Cyfrol 56, Argraffiad 4, Ar Gael: https://www.tandfonline.com/doi/full/10.1080/00131881.2014.965562 (Darllenwyd: 14/01/22).

Siencyn, S. (2010) *Y Cyfnod Sylfaen 3-7oed,* Llandysul a Caerfyrddin: J D Lewis.

Siponen, S. *et al* (2011) 'Children's health and parental socioeconomic factors: a population-based survey in Finland', *BMC Public Health*, Ar gael: https://bmcpublichealth.biomedcentral.com/articles/10.1186/1471-2458-11-457 (Darllenwyd: 12/01/22).

Soler, J. a Miller, L. (2010) 'The Struggle for Early Childhood Curricula: A comparison of the English Foundation Stage Curriculum, Te Wha¨riki and Reggio Emilia', *International Journal of Early Years Education*, 11:1, tud 57-68, Ar Gael: https://www.tandfonline.com/doi/pdf/10.1080/0966976032000066091?needAccess=true (Darllenwyd: 06/01/22).

Standing and testing agency (2020) *Early years foundation stage assessment and reporting arrangements,* Ar Gael: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/940833/2021_EYFS_ARA_V1.0.pdf (Darllenwyd: 10/01/21).

Taylor, C. *et al* (2016) 'Implementing curriculum reform in Wales: the case of the Foundation Phase', *Oxford Review of Education,* Cyfrol 42, Argraffiad 3, Ar Gael: https://www.tandfonline.com/doi/full/10.1080/03054985.2016.1184872 (Darllenwyd: 13/01/22).

UKEssays (2015) *Treating Every Child As Unique Individual Children And Young People Essay*, Ar Gael: https://www.ukessays.com/essays/young-people/treating-every-child-as-unique-individual-children-and-young-people-essay.php?vref=1 (Darllenwyd: 13/01/22).

Undeg Addysg Cenedlaethol Cymru (2019) *Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru Datganiad i'r Wasg,* Ar Gael: https://neu.org.uk/media/7401/view (Darllenwyd: 08/01/22).

University of Reading (dim dyddiad) E*ngage in Assessment*, Ar Gael: https://www.reading.ac.uk/engageinassessment/why-is-assessment-important/eia-why-is-assessment-important.aspx (Darllenwyd: 09/01/22).

WJE (2015) 'The Foundation Phase in Wales – time to grow up?', *Future Education System in Wales: FP,* Ar Gael: file:///C:/Users/Teacher/Downloads/Waters,%20J.(2016)%20The%20foundation%20phase%20in%20Wales%20-%20time%20to%20grow%20(1).pdf (Darllenwyd: 08/01/22).